CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2021/2022

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/2022. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dylan Wyn Rees**
**Parti/Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Canolbarth Môn**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 05/2021 a 04/2022, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgAttendance |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Is-gadeirydd) | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (Cadeirydd) | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Is-bwyllgor Sgriwtini Cyllid | |
| Y Gymdeithas (Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn flaenorol) | |
| | |

Rwyf wedi cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| **Corff allanol** | **Crynodeb o rôl a chyfraniad** |
|---|---|
| Panel Maethu Gwynedd ac Ynys Môn | Fi yw'r unig gynrychiolydd ar gyfer Gwynedd a Môn ar y Panel hwn. Mae'r Panel yn gyfrifol am y gwaith pwysig o baru plant yn barod i gael eu mabwysiadu gan ddarpar fabwysiadwyr ac mae'n cyfarfod yn fisol i ystyried achosion unigol. |
| Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Ynys Môn) | Rydw i'n un o dri o Gynghorwyr Sir Ynys Môn sy'n aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol |

| | |
|---|---|
| | Gogledd Cymru, sef sefydliad annibynnol statudol sy'n cynrychioli buddiannau cleifion y GIG a'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru. Mae'r sefydliad yn cynnal arolygon rheolaidd i gasglu gwybodaeth am brofiadau cleifion wrth ddefnyddio'r GIG er mwyn codi pryderon a gwneud gwelliannau. |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Rydw i'n un o dri o gynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn a benodwyd i wasanaethau ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd yn monitro perfformiad a chyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Rydw i'n aelod o'r Is-Bwyllgor Gwaith hefyd. Yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai, cefais y fraint unwaith eto o gael fy ailethol yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod. O ganlyniad, rydw i'n cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog i drafod materion strategol a gweithredol. |
| Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Fi yw'r unig Gynghorydd o Ynys Môn a benodwyd fel cynrychiolydd i wasanaethau ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Rôl y Panel hwn yw monitro perfformiad a chyllideb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. |
| Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Bodffordd | Rydw i'n Is-gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd. |

| | |
|---|---|
| Llywodraethwr Ysgol – Canolfan Addysg y Bont | Rydw i'n Is-gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Canolfan Addysg y Bont, sef ysgol yn Llangefni sy'n darparu addysg ar gyfer plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan y disgyblion ystod eang o anghenion dysgu, gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. |

**2 - Gweithgareddau yn y Ward**
Yn ogystal ag eistedd ar y pwyllgorau uchod, rydw i hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill ym mhob rhan o'r ward, gan gynnwys:

**Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned** – Rydw i'n mynychu cyfarfodydd misol Cyngor Tref Llangefni yn rheolaidd er mwyn cefnogi gwaith y Cyngor Tref yn fy rôl fel Cynghorydd Sir. Rydw i wedi cymryd cyfrifoldeb arweiniol ymysg tri Chynghorydd Canolbarth Môn ar gyfer cefnogi Cyngor Cymuned Llanddyfnan ac rydw i'n mynychu eu cyfarfodydd misol yn rheolaidd.

**Menter Gymdeithasol Llangefni** – Mae'r Fenter Gymdeithasol hon yn gyfrifol am Barc Chwaraeon Trefol Llangefni ac rydw i'n Gadeirydd ar y grŵp prosiect. Mae'r Parc yn parhau i fod yn eithriadol o lwyddiannus, gyda 80 i 100 o ddefnyddwyr yn ymweld â'r Parc yn ddyddiol i reidio eu sgwteri, sglefr-fyrddau a defnyddio'r gampfa awyr agored a'r cwrt pêl-fasged.

**Gobaith Môn** – Elusen Gristnogol yw hon yr ydwyf yn ei chefnogi ar lefel bersonol ac rydw i'n Ysgrifennydd i'r ymddiriedolwyr. Mae'r sefydliad yn gweithio gyda phobl ifanc yn unig, mewn ysgolion, eglwysi a chymunedau ledled yr ynys ac mae'n ceisio darparu ar gyfer eu llesiant a'u cynorthwyo i gyrraedd eu potensial llawn.

**Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru** - Rydw i'n aelod o'r sefydliad hwn sydd wedi cyflawni gwaith anhygoel wrth ailgyflwyno cynefinoedd addas er mwyn gwarchod gwiwerod coch brodorol e.e. Nant y Pandy yn Llangefni.

**Partneriaeth Llangefni** – Rydw i'n aelod o'r Grŵp Adfywio lleol hwn sy'n cael ei gadeirio gan Ieuan Wyn Jones ac mae'n dod ag unigolion a sefydliadau at ei gilydd gyda'r nod o adfywio Llangefni.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rydw i'n parhau i wasanaethu fy nghymuned leol yn rheolaidd trwy wirfoddoli er mwyn cynorthwyo'r sefydliadau canlynol:

**Bwyd Da Môn** (www.bwyd-da-mon.org.uk) – cynorthwyo yn y siop yn Llangefni

***Parkrun* Llangefni** – gwirfoddoli fel Marsial.

**Clwb Pêl-droed Tref Llangefni** – cynorthwyo i stiwardio pan gynhelir gemau mawr.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am weithgareddau dysgu a datblygu yr wyf wedi eu mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'w gweld yma (gwybodaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn)

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Yn anffodus, mae effaith Covid wedi golygu y cafwyd llai o gyfleoedd yn ystod y 12 mis diwethaf i fynychu digwyddiadau cymunedol a diwylliannol. Serch hynny, roeddwn wrth fy modd cael ymuno unwaith eto yn yr Orymdaith Dydd Gŵyl Dewi drwy ganol Llangefni a mynychu'r Gwasanaeth Nadolig 'Coeden Oleuadau' yn Eglwys Cyngar Sant a Gwasanaeth Nadolig 'Gwasanaethau Brys 999' yng Nghadeirlan Bangor.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
Cyngor Sir Ynys Môn (ynysmon.gov.uk)

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd: Dylan Wyn Rees** | **Mai 2022** |